

Ein Cymoedd, Ein Dyfodol – Papur Tystiolaeth

Mynegai

	Rhif tudalen
1. Cyflwyniad	1
2. Economi ac ystadegau	1
3. Crynodeb o'r argymhellion o adroddiadau allweddol	5
4. Aseidiadau Llesiant	7
5. Crynodebau o'r gweithdai	9
6. Casgliad	12
Atodiad A – Aseidiadau Llesiant	13

1. Cyflwyniad

1.1 Nod y papur hwn yw amlinellu rhywfaint o'r gwaith ymchwil a dadansoddi sydd wedi'i ddefnyddio fel sail i'r gwaith o ddatblygu 'Ein Cymoedd - Ein Dyfodol'. Mae hyn wedi cynnwys defnyddio data ystadegol ac economaidd, ymgysylltu drwy weithdai gyda rhanddeiliaid, gan ddefnyddio canfyddiadau ymchwil cyfoes a rhai sy'n dod i'r amlwg a defnyddio canfyddiadau o waith ymgysylltu â chymunedau sy'n bodoli eisoes drwy Aseidiadau Llesiant. Mae'r papur yn cyflwyno darlun o amser penodol ac yn cael ei gyhoeddi ochr yn ochr ag Ymchwil Arad 'Rhaglen Ymgysylltu Tasglu Cymoedd y De – Adroddiad Terfynol'.

2. Economi ac ystadegau

2.1 Er mwyn mesur cynnydd yn erbyn y tri maes blaenoriaeth (swyddi a sgiliau, gwell gwasanaethau cyhoeddus a lles personol a chymunedol) bydd 'Ein Cymoedd – Ein Dyfodol' yn defnyddio data o'r dangosyddion cenedlaethol ar gyfer Cymru (<http://llyw.cymru/topics/people-and-communities/people/future-generations-act/national-indicators/?lang=cy>), a fydd yn darparu gwybodaeth sylfaenol i gymharu cynnydd, lle bo hynny'n bosib. Er mwyn nodi bylchau, bydd mesurau ychwanegol yn cael eu nodi y bydd tasglu'r cymoedd yn cyfrannu tuag atynt. Bydd fframwaith monitro manwl yn cael ei gyhoeddi yn ystod hydref 2017, a fydd yn nodi rhestr o ddata allweddol.

2.2 Mae cyfres o fesurau wedi cael eu mapio sy'n ystyried amddifadedd, budd-daliadau, hygyrchedd, addysg, sgiliau ac iechyd. Cyflwynir rhai o'r canfyddiadau allweddol a'r dadansoddiad isod.

2.3 Wrth edrych ar gyfres o ddangosyddion sy'n mesur amddifadedd drwy Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru mae'r boblogaeth yn ardaloedd y tasglu yn gwneud yn sylweddol waeth o'i chymharu â phoblogaeth Cymru yn ei chyfanrwydd.

- Mae wardiau yn y Cymoedd (yng ngogledd a chanolbarth y Cymoedd yn bennaf) ymhlith y mwyaf difreintiedig yn economaidd yn y DU.
- Mae tua 44% o'r boblogaeth a gwmpesir gan y tasglu'n byw mewn ardaloedd lle mae'r gyfradd geni isel yn uwch na 6 o bob 1,000 o enedigaethau byw. Mae hyn yn cymharu â 35% o boblogaeth Cymru yn ei chyfanrwydd.
- Mae tua 64% o'r boblogaeth a gwmpesir gan y tasglu'n byw mewn ardaloedd lle mae mwy na 29 y cant o oedolion heb unrhyw gymwysterau. Mae hyn yn cymharu â 35% o boblogaeth Cymru yn ei chyfanrwydd.
- Mae tua 54% o'r boblogaeth a gwmpesir gan y tasglu'n byw mewn ardaloedd lle mae'r gyfradd hawlwy'r budd-dal yn fwy na 175 o bob 1,000 o'r boblogaeth oedran gweithio. Mae hyn yn cymharu â 33% o boblogaeth Cymru yn ei chyfanrwydd.
- Disgwylir i aelwydydd yn yr isranbarth sy'n cynnwys yr ardaloedd awdurdod lleol gyda'r cyfraddau uchaf o hawlwy'r budd-daliadau oedran gweithio golli'r mwyaf ar gyfartaledd yn sgil y newidiadau i fudd-daliadau, ac mae'r rhan fwyaf o'r ardaloedd hyn yng Nghymoedd y De.

2.4 Mae ardal y Cymoedd yn tanberfformio Cymru gyfan yn gyffredinol ar draws casgliad o ddangosyddion economaidd. Yn gyffredinol mae'r tanberfformiad yn gymedrol o ran cyfraddau cyflogaeth cyfartalog, ac yn gyfyngedig ar draws dangosyddion eraill hefyd ar gyfer Pen-y-bont ar Ogwr a Chastell-nedd Port Talbot.

- Mae tanberfformiad cymharol Cymru (a Gorllewin Cymru a'r Cymoedd) o'i gymharu â'r UE dros y cyfnod ers 2004 yn adlewyrchu tuedd y DU gyfan yn hytrach nag unrhyw beth sy'n benodol i Gymru. Yn wir, mae'r Gorllewin a'r Cymoedd wedi gweld gwelliant cymharol o gymharu â Chymru gyfan a'r DU.
- Mae cyfraddau diweithdra yn y rhan fwyaf o awdurdodau lleol yng Nghymoedd y De wedi gostwng yn gyflymach na chyfartaledd Cymru dros y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2017. Yn ystod y flwyddyn, cafwyd gostyngiad yn y gyfradd ddiweithdra -3.8 pwynt canran ym Mlaenau Gwent a -0.4 pwynt canran ym Merthyr Tudful.
- Mae'r gyfradd gyflogaeth ymhlith pobl 16 a 64 mlwydd oed yng Nghymru ar gynnydd ac yn tyfu gyflymaf yn y Gorllewin a'r Cymoedd, gyda chynnydd o 0.7 pwynt canran o gymharu â'r flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2017.
- Er bod Gwerth Ychwanegol Gros (GVA) y pen yn is na chyfartaledd Cymru yn y Cymoedd Canolog a Chymoedd Gwent, cynhyrchiant, fel y mesurwyd gan GVA fesul awr a weithiwyd, yn y Cymoedd Canolog yw'r uchaf yng Nghymru, tra bod cynhyrchiant yng Nghymoedd Gwent hefyd yn uwch na chyfartaledd Cymru yn 2015.
- Ar draws y DU gyfan, mae dibyniaeth gymharol ar weithgynhyrchu wedi bod yn gysylltiedig â thwf is na'r cyfartaledd, ac mae'r patrwm hwn i'w weld yng Nghymru hefyd, gyda gwendid i'w weld yn ardal Gwent, a Chymoedd Gwent yn arbennig.
- Yn ôl pob tebyg incwm domestig crynswth aelwydydd (GDHI) y pen yw'r dangosydd sengl gorau sydd ar gael o safonau byw materol. Mae perfformiad cymharol y Cymoedd wedi cynyddu ers tua 2005.
- Er gwaethaf y dirwasgiad yn y cyfamser, bu cynnydd mawr mewn cyfraddau cyflogaeth ar draws ardaloedd y Cymoedd, gyda'r cynnydd mwyaf yn gyffredinol mewn ardaloedd oedd â'r cyfraddau cychwynnol isaf. Mae'r cynnydd wedi'i sbarduno gan lefelau is o anweithgarwch (yn hytrach na llai o ddiweithdra). Nid ydym yn deall yr achosion yn llawn, ond ymddengys eu bod yn gysylltiedig â phroffil sgiliau sy'n gwella ar gyfer y boblogaeth (a chynnydd yng nghyflogaeth menywod mewn gwaith rhan-amser).
- Yn wahanol i gyflogaeth, bu gostyngiad mewn cyflogau (cymharol) ar draws llawer o'r Cymoedd (ac yng Nghymru'n gyffredinol).

2.5 Dengys Cymoedd y De anghydraddoldeb ar draws cyfres o ddangosyddion iechyd, lles ac addysg.

- O ran disgwyliad oes, ar gyfer dynion a menywod, mae'r ffigurau'n is yn gyffredinol ar gyfer yr awdurdodau lleol a gwmpesir yn llwyr gan ardaloedd y tasglu nag ar gyfer Cymru yn ei chyfanrwydd. Mae'r un peth yn wir am ddisgwyliad oes iach hefyd.
- Yn yr awdurdodau lleol a gwmpesir yn llwyr gan y tasglu, yn gyffredinol dywed oedolion bod ganddynt ffordd o fyw llai iach o gymharu â Chymru gyfan.
- Ar draws Cymru mae 20 y cant o oedolion yn dweud eu bod yn smygu a 58 y cant yn ordew neu dros bwysau. Ym Merthyr Tudful y ffigurau cyffelyb yw 25 y cant a 67 y cant. Ym Mlaenau Gwent y ffigurau yw 26 y cant a 62 y cant.

- Mae gwahaniaethau sylweddol o ran anghydraddoldeb lles yn enwedig yn y Cymoedd, sydd ymysg y mwyaf anghyfartal dro ar ôl tro.
- Mae cyfran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn uwch yn gyffredinol yn yr awdurdodau lleol hynny a gwmpesir yn llwyr gan ardal y tasglu nag ar gyfer Cymru yn ei chyfanrwydd. Er enghraifft, mae cyfran y disgyblion sy'n gymwys yn 25 y cant ym Mlaenau Gwent a 22 y cant ym Merthyr Tudful, o'i gymharu â 17 y cant yng Nghymru yn ei chyfanrwydd.
- Mae cyrhaeddiad addysgol yn is mewn awdurdodau lleol a gwmpesir yn llwyr gan ardal y tasglu nag ar gyfer Cymru yn ei chyfanrwydd. Er enghraifft, cyflawnodd 48 y cant o ddisgyblion ym Mlaenau Gwent lefel 2 yn cynnwys Cymraeg/Saesneg a mathemateg, a'r ffigur ar gyfer Torfaen oedd 53 y cant. Mae hyn yn cymharu â ffigur o 60 y cant ar draws Cymru.

3. Crynodeb o'r dystiolaeth

3.1 Mae'r tabl canlynol yn rhoi trosolwg o rai o'r adroddiadau a'r argymhellion allweddol yng nghyd-destun y cymoedd sydd wedi helpu fel sail i ddatblygu'r cynllun cyflawni. Nid yw hon yn rhestr gyflawn, ond ei nod yw dangos y dystiolaeth gyffredinol sydd ar gael ar hyn o bryd. Defnyddiwyd tystiolaeth o ffynonellau amrywiol ar draws y DU ac yn rhyngwladol, er enghraifft y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD) a gyflwynwyd yng nghyfarfod y tasglu ym mis Medi 2016.

Hanner Can Mlynedd o Adfywio'r Cymoedd, 2016 - Llywodraeth Cymru

<http://lyw.cymru/docs/ds/jlg/meetings/taskforce/161122-fifty-years-regeneration-in-the-valleys-cy.pdf>

Mae'r Tasglu Gweinidogol ar gyfer y Cymoedd wedi ystyried ffynonellau tystiolaeth niferus i lywio'r cynllun. Mae hyn wedi cynnwys defnyddio tystiolaeth i ystyried effaith dulliau adfywio blaenorol yng Nghymoedd y De.

A New Deal for the Valleys, 2016 a Taking the Valleys Forward, 2017 – Sefydliad Bevan

https://www.bevanfoundation.org/commentary/new_deal_valleys/

Mae'r ddau adroddiad yn gwneud nifer o argymhellion ar gyfer y tasglu sy'n dwyn ynghyd awgrymiadau ynghylch sut y gallai Tasglu'r Cymoedd gynyddu ffyniant a diogelu economi a marchnad lafur y Cymoedd. Mae hyn yn cynnwys archwilio blaenoriaethau gofodol, mwy o swyddi a gwell swyddi ar gyfer y cymoedd a helpu pobl i gael gwaith gwell.

Mae Sefydliad Bevan wedi darparu cyfres o adroddiadau a dadansoddiadau ar sail Cymru gyfan hefyd ar yr economi seilwaith, tai, tlodi mewn gwaith, bargeinion dinesig ac addysg sydd wedi'u hystyried. Gwnaeth Dr Victoria Winckler gyflwyniad i'r tasglu ym mis Medi 2016.

All Around Us: The Pontypool Deep Place Study, 2016 - Sefydliad Ymchwil Mannau Cynaliadwy, Prifysgol Caerdydd

<http://www.cardiff.ac.uk/sustainable-places/research/projects/the-deep-place-study>

Mae'r Deep Place Study yn ddull cyfannol o edrych ar y broses o greu manau cynaliadwy. Mae wedi'i seilio ar ystyriaeth empirig o sut i sicrhau bod mwy o lefydd a chymunedau yn fwy cynaliadwy'n economaidd, yn gymdeithasol, yn amgylcheddol ac yn ddiwylliannol. Mae'r dull yn parhau i gael eu dylanwadu'n helaeth gan ddamcaniaethau'n ymwneud ac eithrio cymdeithasol, theori pontio, agenda diwygio gwasanaethau cyhoeddus Total Place, ac economeg sylfaenol.

Defnyddiwyd canfyddiadau'r astudiaeth i Tredegar Deep Place yn 2014. Gwnaeth Dr Mark Lang gyflwyniad i'r tasglu ym mis Medi 2016.

Comisiwn Twf a Chystadleuaeth Bargaen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, 2016

<http://www.cardiffcapitalregioncitydeal.wales/cardiff-capital-region-growth-competitiveness-commission-report.html>

Mae'r adroddiad yn gwneud argymhellion i fanteisio ar gryfderau'r ardal, a chydnabyddir yn eang bod Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn rhanbarth â chryfderau mawr, amgylchedd deniadol, treftadaeth gref, economi sy'n tyfu a chyfleoedd sy'n dod i'r fei. Fodd bynnag, mae hefyd yn rhanbarth lle ceir crynodiadau dwys o dlodi, lle mae llawer o bobl yn dioddef o iechyd gwael a lle nad yw pawb yn cael mynediad at y cyfleoedd sydd ar gael. Mewn adroddiadau diweddar am Gaerdydd a dinas-ranbarthau Cymru, mae'r ddwy flaenoriaeth, sef gwireddu potensial gwych a mynd i'r afael â lefelau ystyfnig o uchel o anfantais, yn cael eu cydnabod.

Swyddi a'r Economi: Castell-nedd Ffyniannus, 2017 – Fforwm Economaidd Castell-nedd

<http://www.jeremymiles.cymru/en/jobs-and-the-economy-a-thriving-neath/>

Menter gan Jeremy Miles AC yw Fforwm Economaidd Ardal Castell-nedd i hwyluso trafodaeth ar y materion economaidd sy'n wynebu Castell-nedd. Arweiniodd y materion a godwyd yn y fforwm at ddatblygu adroddiad sy'n ystyried cryfderau a chyfleoedd yn yr economi leol.

Prosperity Without Poverty: a framework for action in Wales - JRF a Sefydliad Bevan, 2016

<https://www.bevanfoundation.org/publications/prosperity-without-poverty-framework-action-wales/>

Mae'r fframwaith yn cymryd golwg ehangach ar dlodi na naill ai mesurau incwm cymharol neu ddulliau sy'n edrych ar amddifadedd ar sail ardal. Mae'n cydnabod, er bod yn rhaid i lywodraeth arwain, bod yn rhaid i bawb wneud eu rhan, yn cynnwys busnesau, cymunedau ac unigolion. Mae'n gweld gweithredu i gynyddu ffyniant a lleihau tlodi fel rhan annatod o bob polisi cyhoeddus, nid gwasanaethau atodol a ddarperir mewn ardaloedd targed. Mae'n awgrymu bod dull o weithredu sy'n seiliedig ar le er mwyn cynhyrchu cyflogaeth briodol yn hanfodol.

Cynllun Cyflogaeth a Sgiliau De Ddwyrain Cymru a Chynllun Rhanbarthol Cyflogaeth a Sgiliau De Orllewin a Chanolbarth Cymru, 2016

<http://www.lskip.wales/> <http://www.rlp.org.uk/>

Mae'r cynlluniau'n helpu i nodi a blaenoriaethu sgiliau a blaenoriaethau economaidd ar draws y rhanbarthau. Mae hyn yn cynnwys nodi bylchau ac archwilio cyfleoedd ar gyfer mewnfuddsoddi.

Bywoliaethau Cynaliadwy, 2016 – Oxfam Cymru

<http://policy-practice.oxfam.org.uk/publications/the-sustainable-livelihoods-approach-toolkit-for-wales-297233>

Mae'r Dull Bywoliaethau Cynaliadwy (SLA) yn ddull o ddadansoddi a newid bywydau pobl sy'n wynebu tlodi ac anfantais. Mae'n ddull cyfranogol yn seiliedig ar gydnabod bod gan bawb alluoedd ac asedau y gellir eu datblygu er mwyn helpu i wella eu bywydau.

Gwnaeth Kirsty Davies-Warner gyflwyniad i'r tasglu ym mis Medi 2016.

4. Aseidiadau Llesiant

4.1 Yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, mae'n rhaid i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ddatblygu Cynlluniau Llesiant Lleol erbyn mis Ebrill 2018. Er mwyn cyflawni hyn, mae'n rhaid iddynt ymgysylltu â dinasyddion lleol yn ogystal â datblygu aseidiadau llesiant o'r ardal leol. Mae adolygiad o'r wyth adroddiad ymgysylltu sy'n cefnogi'r aseidiadau llesiant drafft wedi'u hamlygu isod. Mae hyn yn helpu i ategu'r ymgysylltiad sy'n digwydd drwy'r tasglu.

4.2 Mae nifer o themâu cyffredin ar draws y cymoedd yn gyffredinol fel y nodir mewn gwaith ymgysylltu ar gyfer aseidiadau lles. Mae'r rhain wedi eu nodi isod a'u grwpio yn unol â themâu adroddiad Tasglu'r Cymoedd 'Ein Cymoedd, Ein Dyfodol'. Yn gyffredinol, dywedodd yr holl adroddiadau ymgysylltu bod ysbryd a balchder cymunedol yn uchel, yn enwedig pwysigrwydd teulu a ffrindiau. Gwelwyd hyn fel ffactor pwysig ar draws pob un o'r wyth awdurdod yn y cymoedd.

Swyddi o ansawdd da a'r sgiliau i'w cyflawni

4.3 Tynnwyd sylw at gyflogaeth ac incwm ym mhob awdurdod lleol yn y Cymoedd. Mae angen cyfleoedd cyflogaeth mwy addas (Sir Gaerfyrddin a Chaerffili) yn ogystal ag angen i bobl deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a chael sicrwydd mewn cyflogaeth (Sir Gaerfyrddin). Tynnwyd sylw at yr angen am gyflogaeth leol sy'n talu'n dda sy'n rhoi'r gallu i bobl ifanc hyfforddi a gweithio'n lleol (Caerffili).

4.4 Roedd sicrwydd ariannol yn bwysau allweddol ar gyfer y rhai ar incwm isel. Roedd gweithwyr yn pryderu bod safonau byw yn cael eu herydu, gan nad yw rhai wedi gweld codiad cyflog ers blynnyddoedd lawer ac eraill wedi symud yn raddol i swyddi sgiliau is â

chyflogau is (Abertawe). Mae biliau cyfleustodau'n broblem, gyda rhai'n wynebu dewis anodd rhwng "bwyta neu wresogi" (Castell-nedd Port Talbot).

4.5 Mae angen gwell cyfleoedd ar gyfer dechrau busnes (Pen-y-bont ar Ogwr). Mae angen mwy o gefnogaeth i fusnesau lleol (er bod cefnogaeth yn dda yn Nhorfaen) yn ogystal â chynnydd mewn lleoedd prentisiaeth (Caerffili). Teimlwyd bod diffyg safleoedd a sgiliau lleol gwael yn rhwystro busnesau yn ardal Torfaen. Fodd bynnag, gallai buddsoddiad lleol wella hyn.

4.6 Mae pobl sy'n byw mewn llefydd heblaw coridor yr M4 yn fwy tebygol o ddiodef cael eu gwthio i'r cyrion yn economaidd o ganlyniad i fynediad gwael i waith oherwydd cyfyngiadau trafndiaeth gyhoeddus (Castell-nedd Port Talbot).

Gwasanaethau Cyhoeddus Gwell

4.7 Mynegwyd pryderon am fynediad i drafnidiaeth gyhoeddus, diffyg trafndiaeth integredig ac anallu i gael mynediad i gyfleoedd hamdden a gwaith y tu allan i amseroedd teithio brig (Caerffili a Sir Gaerfyrddin). Roedd cyfleusterau parcio ceir mewn hybiau trafndiaeth yn cael eu hystyried yn bwysig i'w gwneud yn haws i bobl ddewis trafndiaeth gyhoeddus (Caerffili). Roedd y cyfleoedd yn rhanbarth Caerdydd yn cael eu gweld fel rhywbeth cadarnhaol, er bod mynediad i drafnidiaeth gyhoeddus yn rhwystro'r gallu i fanteisio ar y cyfleusterau hyn mewn rhai ardaloedd daearyddol (Caerffili).

4.8 Roedd gwell mynediad at wasanaethau yn bwysig (Sir Gaerfyrddin) yn ogystal â phryderon y gallai toriadau yn sgil cyni cyllidol effeithio ar hygyrchedd a chydaddoldeb mynediad (Castell-nedd Port Talbot a Chaerffili). Mae angen gwella mynediad at feddygon teulu, ysbytai a gwasanaethau iechyd meddwl (Sir Gaerfyrddin).

Fy Nghymuned Leol

4.9 Roedd yr amgylchedd yn cael ei ystyried yn allweddol ym mhob cymuned yn y cymoedd. Mae'r dirwedd, golygfeydd a manau gwyrdd yn cael eu gwerthfawrogi'n arbennig yn Sir Gaerfyrddin, Castell-nedd Port Talbot, Abertawe a Thorfaen. Tynnodd Caerffili a Chastell-nedd Port Talbot sylw at bwysigrwydd cynaliadwyedd a chynllunio/defnyddio ynni adnewyddadwy.

4.10 Roedd materion lleol yn cael eu hystyried yn arbennig o bwysig, er enghraifft tipio anghyfreithlon, ailgylchu a gwastraff (Pen-y-bont ar Ogwr / Blaenau Gwent / Caerffili / Sir Gaerfyrddin / Castell-nedd Port Talbot / Abertawe / Torfaen). Cafodd canolfannau cymunedol, canolfannau hamdden a llyfrgelloedd eu crybwyll fel asedau cymunedol (Caerffili). Roedd gwirfoddoli'n cael ei weld fel ffordd ardderchog o feithrin lles (Abertawe).

4.11 Ystyriwyd bod argaeledd cyfleoedd a gweithgareddau cymdeithasol yn bwysig i fyw'n dda a mwynhau bywyd (Blaenau Gwent a Chaerffili), fodd bynnag, mae yna ganfyddiad y gall prinder ohonynt arwain at ymddygiad gwrthgymdeithasol (Caerffili).

4.12 Mae canol trefi'n wael gyda siopau'n cau, safonau gwael o waith cynnal a chadw (Castell-nedd Port Talbot / Abertawe). Amlinellodd Caerffili gefnogaeth i ganolfannau manwerthu lleol sy'n bwysig gan fod preswylwyr yn gwerthfawrogi siopau lleol sy'n agos

atynt i gael gafael ar nwyddau a gwasanaethau. Fodd bynnag, mae angen i fannau cyhoeddus gael eu cynnal a'u cadw'n well (Torfaen).

4.13 Mae mynediad i wasanaethau yn thema gyffredin ar draws awdurdodau (Castell-nedd Port Talbot, Abertawe, Torfaen, Sir Gaerfyrddin), yn enwedig ar gyfer cyfleoedd hamdden, treftadaeth a chwaraeon i gadw'n heini ac yn iach (Blaenau Gwent, Castell-nedd Port Talbot, Abertawe a Thorfaen). Crybwyllwyd yr angen i gynnal cefnogaeth i'r Gymraeg (Castell-nedd Port Talbot / Sir Gaerfyrddin / Abertawe).

5. Crynodebau o'r gweithdai

5.1 Yn ystod mis Ebrill 2017 cynhaliwyd tri gweithdy'n seiliedig ar y blaenoriaethau a nodwyd gan dasglu'r cymoedd ar swyddi a sgiliau, gwasanaethau cyhoeddus integredig a gwell a lles personol a chymunedol. Defnyddiodd pob gweithdy'r holl dystiolaeth ymgysylltu bresennol gan gymunedau'r cymoedd yn y gobaith o sbarduno ymrwymadau a chyfrannu at lunio cynllun lefel uchel y cymoedd.

5.2 Roedd y mynychwyr yn cynnwys swyddogion Llywodraeth Cymru, aelodau o'r Tasglu Gweinidogol ar gyfer y Cymoedd a rhanddeiliaid o feysydd perthnasol. Cafodd pob gweithdy ei gadeirio gan gynrychiolydd y tasglu. Amlygir rhai o'r canfyddiadau allweddol ar draws themâu isod.

Swyddi o ansawdd da a'r sgiliau i'w cyflawni

5.3 Cynhaliwyd tair sesiwn arbennig ar swyddi, sgiliau a seilwaith. Roedd hyn yn cynnwys edrych ar rai o'r camau allweddol sydd eu hangen i helpu i greu swyddi. Teimlwyd y dylai unrhyw ddull o ymdrin â swyddi geisio creu newid sylweddol drwy gydnabod yr angen i greu gwaith teg ac i fynd i'r afael â rhai o'r rhwystrau o ran cael mynediad at gyflogaeth. Teimlai rhai cynrychiolwyr bod angen gweld llwybr clir i ddangos sut y byddai swyddi'n cael eu creu a'i bod yn bwysig cryfhau cysylltiadau â'r sector preifat, gan gynnwys busnesau sy'n bodoli eisoes.

5.4 Roedd ystyried canlyniadau gwaith teg yn thema ganolog ar gyfer trafodaeth, gan gynnwys ystyried pa ymyriadau y gallai'r llywodraeth eu rhoi ar waith lle mae marchnadoedd wedi methu. Awgrymwyd y gallai hyn gynnwys defnyddio treth gwaith teg ar gyflogaeth leol ac ystyried sut y gellid cynnwys cymalau mewn contractau cyhoeddus. Ystyriwyd bod sicrhau cymaint o fanteision cymunedol â phosib i greu cyflogaeth leol a sgiliau o gaffael yn hollbwysig, teimlai rhai y gallai hyn gael ei gefnogi drwy roi cyfle i fusnesau bach a chanolig (BBaChau) dendro drwy ddyfarnu contractau llai.

5.5 Teimlwyd bod grymuso'r sector preifat mewn perthynas â chyd-fuddsoddi i greu swyddi a chyflymu mewnfuddsoddiad yn hanfodol i gyflawni'r targed swyddi. Dywedodd rhai mynychwyr y gellid cyflawni hyn drwy dargedu cyllid at sectorau penodol drwy ddull a arweinir gan y galw a theimlai eraill y dylai'r llywodraeth fod yn defnyddio dulliau ysgogi er mwyn lleihau trethi i fusnesau. Gallai swyddi lleol gael eu gwella drwy weithio gyda chwmnïau angor a chwmnïau rhanbarthol bwysig i edrych ar gadwyni cyflenwi a gweld sut y gellir cadw gwariant yn lleol.

5.6 Teimlwyd bod cymorth busnes presennol yn dameidiog ar draws yr awdurdodau lleol. Roedd teimlad bod angen dadansoddi lle mae cyfleoedd arbennig i fusnesau presennol dyfu ac i dargedu cefnogaeth trwy Busnes Cymru. Gwelwyd yr angen i adeiladu ecosystem gefnogol ar gyfer dechrau busnes drwy ddatblygu cynigion sy'n seiliedig ar le yn cynnig ffordd bosib ymlaen. Gellid ategu hyn drwy gyllid busnes i hybu arloesedd drwy Fanc Datblygu Cymru ac i wella cyfraddau trosi o gychwyn busnes i dwf busnes. Gallai fod manteision i annog cronfeydd pensiwn y sector cyhoeddus i fuddsoddi a chymryd risgiau mewn busnesau lleol fel rhan o ddull seiliedig ar werth cymdeithasol.

5.7 Mewn perthynas â sicrhau twf economaidd, teimlwyd bod cael cymaint o fudd â phosib o'r bargeinion dinesig yng Nghaerdydd ac Abertawe i greu twf yn cynnig cyfleoedd gwirioneddol. Fodd bynnag, teimlwyd y dylai hyn gael ei ategu drwy gryfhau dulliau yn seiliedig ar lefydd lleol er mwyn i economïau lleol dyfu a chynnig cyfleoedd gwaith mwy cynaliadwy. Mae hyn yn cynnwys o fewn yr economi seilwaith, gan gynnwys cefnogi sectorau penodol megis twristiaeth a gofal cymdeithasol. Teimlwyd y dylai'r economi seilwaith gael ei chefnogi gan nad yw'n ddeniadol oherwydd cyflogau isel, amodau gwael a diffyg cyfleoedd i symud ymlaen.

5.8 Roedd cefnogaeth gyffredinol i ddull seiliedig ar hybiau strategol o dargedu buddsoddiad a thwf mewn safleoedd a nodwyd ar draws y cymoedd. Gallai hyn gynnwys edrych ar sectorau twf newydd, gan edrych ar fodolau hybu. Dylai eiddo sy'n barod i fuddsoddi ynddo fod ar gael i alluogi cwmnïau i ddod i'r cymoedd a theimlwyd bod angen gwelliannau i safleoedd presennol er mwyn gwella hygyrchedd a seilwaith.

5.9 Teimlwyd bod yr angen i gefnogi a chydlynu ac alinio nifer o raglenni cyflogadwyedd yn ganlyniad pwysig. Dylai canlyniadau gynnwys cael gwared ar rwystrau i unigolion ac nid bod yn ymarfer ticio bocsys i gael lle ar raglenni. Roedd hyn yn cynnwys cynyddu prentisiaid gan ddefnyddio cymorthdaliadau cyflog, fodd bynnag, y farn oedd y dylai taliadau gael eu gwneud fesul cam a'u talu ar y ddealltwriaeth y byddai pobl yn cael swydd amser llawn.

5.10 Dylai proffil sgiliau ar gyfer y cymoedd yn y dyfodol geisio cryfhau cysylltiadau â chyflogwyr a rhoi ffocws cryfach ar rôl bosib cyrsiau galwedigaethol. Dylid annog mentrau o faint Micro a BBaChau i gefnogi canlyniadau gwaith priodol, o bosib trwy dargedu rhaglenni cyflogaeth at fusnesau lleol llai yn gysylltiedig â darpariaeth sgiliau.

5.11 Teimlwyd bod gwireddu manteision buddsoddiadau seilwaith i sbarduno cyflogaeth a chreu swyddi yn cynnig cyfleoedd, yn enwedig trwy Fetro De Cymru a'r A465. Mae hyn yn cynnwys defnyddio seilwaith digidol, gan gynnwys cysylltu trafndiaeth yn ddigidol a chanolbwyntio ar docynnau hyblyg a hygyrch.

Gwasanaethau Cyhoeddus Gwell

5.12 Cynhaliwyd tair sesiwn arbennig ar dai, addysg ac iechyd. Roedd hyn yn cynnwys edrych ar y rhwystrau penodol yn ymwneud ag integreiddio a chydgyssylltu gwasanaethau.

5.13 Teimlwyd bod angen gwella'r stoc tai presennol yn y cymoedd, gan fod cyfran ohono mewn cyflwr gwael ac yn aneffeithlon o ran ynni. Mae angen ystyried treialu grant i gynorthwyo perchen-feddianwyr tai sydd islaw safon benodol.

5.14 Mae cyfleoedd yn y sector adeiladu i ddarparu cyflogaeth. Mae hyn yn cynnwys ystyried treialu tai modwlar mewn ardaloedd penodol ar draws y cymoedd drwy weithgynhyrchu oddi ar y safle a defnyddio pren i gefnogi anghenion tai yn y dyfodol, a allai gynnig mwy o ddatblygiad sgiliau a swyddi. Teimlwyd y byddai hyn yn cael effaith gadarnhaol ar gadwyni cyflenwi a gellid ysgogi hynny drwy grantiau buddsoddwyr ar gyfer busnesau bach a chanolig.

5.15 Teimlwyd bod gwella canlyniadau addysgol a chysylltu addysg â chyfleoedd cyflogaeth yn cynnig ffordd gadarnhaol ymlaen. Mae'n hanfodol i adeiladu ar gyfleoedd i gysylltu ysgolion â chyflogwyr lleol, ond i ddysgu sgiliau busnes ar gyfer ysgolion hefyd. Mae profiad gwaith yn bwysig, ond mae angen ei gwneud mor hawdd â phosibl i bobl ifanc a chyflogwyr. Mae cyngor gyrfaoedd yn hollbwysig o oedran cynnar. Dylai sgiliau digidol ar gyfer pobl ifanc ar draws y cymoedd gael eu targedu gan greu cyfleoedd pwrpasol a chwilio am gyfleoedd newydd.

5.16 Ystyriwyd bod edrych ar gyfleoedd i ysgolion ddod yn hybiau cymunedol a chwalu'r rhwystrau i ddysgu ac ymgysylltu ehangach gan y gymuned yn alluogwyr pwysig. Mae hyn yn cynnwys manteisio'n llawn ar gyllid Ysgolion yr 21ain Ganrif ac ystyried modelau presennol i gefnogi datblygiad cymunedol.

5.17 Teimlwyd bod rôl gwasanaethau iechyd a chymdeithasol cyfoes yn hollbwysig er mwyn canolbwyntio ar atal. Dylai cyllidebau ganolbwyntio ar atal a mentrau i atal / lleihau defnydd pobl o wasanaethau gofal sylfaenol, iechyd y cyhoedd a chynyddu negeseuon cadarnhaol.

5.18 Dylid edrych ar arfer da presennol yng Nghymru mewn perthynas â hybiau gofal iechyd a datblygu 'Tîm ar sail Cymuned' a dull seiliedig ar asedau i brofi Hybiau Gofal Sylfaenol a datblygu syniadau. Mae angen meithrin cysylltiadau rhwng meddygon teulu a'r gwasanaethau cyflogaeth amrywiol a'r rhai sy'n archwilio sgiliau ar gyfer cyflogaeth leol, megis y trydydd sector a phrosiectau iechyd meddwl. Mae hyn yn cynnwys gweithio ar draws seilos a chyd-leoli er mwyn caniatáu rhagnodi cymdeithasol.

5.19 Mae angen i lwybrau gyrfaal ym maes iechyd a gwasanaethau cymdeithasol fod yn glir ac wedi'u cysylltu â sgiliau trosglwyddadwy, ond gan gydnabod anghenion hyfforddi, a rhwystrau ehangach gan gynnwys trafndiaeth. Dylai gwaith ar draws y sector gynnwys mynd i'r afael ag amodau gweithio gwael (contractau dim oriau). Mae angen cynyddu ymwybyddiaeth ymhlith pobl ifanc am y cyfleoedd cyflogaeth sydd ar gael yn y GIG, drwy gysylltu ag ysgolion, y cwricwlwm, modelau rôl a phrofiad gwaith.

Fy Nghymuned Leol

5.20 Cynhaliwyd trafodaethau bord gron oedd yn canolbwyntio ar ynni, twristiaeth ac adfywio. Cynhaliwyd trafodaethau hefyd ynghylch datblygu Parc Tirweddau'r Cymoedd fel fframwaith galluogi i gefnogi gwaith cyflawni, a chefnogwyd hyn yn gyffredinol.

5.21 Trafodwyd y defnydd o ynni a'r angen i fanteisio ar y dirwedd naturiol ar draws y Cymoedd, yn enwedig ystyriwyd cyfleoedd i gefnogi mentrau yn ymwneud â mynd i'r afael â thlodi tanwydd a manteisio'n llawn ar gyfleoedd drwy arloesi. Mae hyn yn cynnwys edrych lle mae unrhyw gynlluniau ynni presennol wedi eu hoedi ac edrych ar ddulliau o symleiddio

cynllunio ac annog buddsoddiad gan y sector preifat. Teimlwyd bod elwa'n llawn ar asedau cymunedol yn bwysig er mwyn gwella lles cymunedol hefyd.

5.22 Teimlwyd bod twristiaeth yn cynnig cyfle gwirioneddol i fanteisio ar y dirwedd naturiol ac atyniadau twristiaeth hanesyddol cyfoethog sydd i'w gweld ar hyd a lled yr ardal. Byddai dau ddiben i hyn sef cymell economïau lleol i dyfu a sicrhau cymaint o gyfleoedd â phosib i bobl leol i gynyddu mynediad i gefn gwlad a choetiroedd. Roedd awgrymiadau'n cynnwys defnyddio pobl lwyddiannus ac eiconig yn y Cymoedd i farchnata'r Cymoedd drwy Croeso Cymru, cynyddu hygyrchedd i safleoedd ac alinio mentrau twristiaeth ac iechyd y cyhoedd. Teimlwyd bod awdurdodau lleol yn gweithio mewn seilos yn ymwneud â'r agenda dwristiaeth a bod angen gweledigaeth ranbarthol glir i sbarduno brand cydlynol ar gyfer y cymoedd.

5.23 Dylai adfywio ganolbwyntio ar gymell economïau lleol i dyfu a gwella swyddi a sgiliau, ac mae hyn yn cynnwys canolbwyntio ar ddiogelu ar gyfer y dyfodol er mwyn sefydlu dull a gaiff ei lywio gan y gymuned er mwyn cytuno ar sut i wneud y defnydd gorau o dir ac adnoddau. Mae'n rhaid i brosiectau ledled Cymru daro bargaen galetach i gael mwy gan y sector preifat ac ystyriwyd bod angen symud oddi wrth y syniad o botiau o gyllid i gael cyllidebau sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau cliriach i'r cymoedd.

5.24 Ystyriwyd nad oedd canol llawer o drefi yn y Cymoedd yn llewyrchus o bell ffordd a bod angen ailfeddwl amdanynt yn llwyr, lle y dylai lleoedd gwag gael eu defnyddio ar gyfer dibenion heblaw manwerthu yn ogystal â manwerthu i gynyddu nifer yr ymwelwyr a gwneud cymunedau'n fwy bywiog. Teimlwyd bod annog busnesau i adleoli yng nghanol trefi drwy leihau ardrethi a defnyddio eiddo gwag fel siopau gwib yn syniadau da.

6. Casgliadau

6.1 Bydd y papur tystiolaeth yn parhau i gael ei ddatblygu drwy ddatblygu prosiectau y gellir eu cyflawni a cherrig milltir drwy'r cynllun. Bydd hyn yn cynnwys aliniad agos â bargeinion dinesig a Chynlluniau Lles sydd ar y gweill, a fydd yn helpu i gefnogi dull cyflawni cyfannol sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Cyhoeddir datblygiad cerrig milltir a dangosyddion drwy'r cynllun cyflawni yn ystod hydref 2017. Ar ben hynny, mae'r detholiad ategol o asesiadau effaith yn defnyddio tystiolaeth benodol hefyd.

Atodiad A - Adolygiad manwl o themâu ymgysylltu Asesu Llesiant

Blaenau Gwent

Mae asesiad drafft Blaenau Gwent wedi'i seilio hyd yma ar ddata, ymchwil sydd ar gael ac adborth a gafwyd yn sgil Cam 1 sioeau teithio "Y Blaenau Gwent a Garem" a gynhaliwyd gyda phartneriaid ar draws y Fwrdeistref yn haf 2016. Gofynnwyd tri phrif gwestiwn, gan gynnwys 'Beth sy'n arbennig am Flaenau Gwent?', 'Pa bethau sy'n bwysig i chi er mwyn byw yn dda a mwynhau eich bywyd?' a 'Beth fyddai'n gwneud Blaenau Gwent yn lle gwell?' Dangosodd y prif ganfyddiadau mai'r canlynol oedd y themâu a'r pynciau mwyaf poblogaidd yng nghyswllt pob cwestiwn:

Cwestiwn	5 Prif Thema (Yn ôl canran y bobl oedd wedi dweud hyn)	5 Prif Bwnc (Yn ôl canran y bobl oedd wedi dweud hyn)
Beth sy'n arbennig am Flaenau Gwent?	Yr Amgylchedd (73%) Y Gymuned (44%) Treftadaeth (19%) Addysg a Sgiliau (18%) Gweithgareddau Cymdeithasol (13%)	Y Dirwedd (52%) Parciau (34%) Cymdogaeth Dda (27%) Ysgolion (14%) Safon y Cyfleusterau Ymarfer (11%)
Pa bethau sy'n bwysig i chi er mwyn byw yn dda a mwynhau eich bywyd?	Gwaith ac Incwm (36%) Gweithgareddau Cymdeithasol (34%) Y Gymuned (34%) Trafnidiaeth (32%) Yr Amgylchedd (29%)	Teulu a Ffrindiau (27%) Bod Gwaith ac Incwm ar gael (21%) Bod Gweithgareddau Cymdeithasol ar gael (20%) Seilwaith Trafnidiaeth (20%) Strydoedd glân a thaclus (10%)
Beth fyddai'n gwneud Blaenau Gwent yn lle gwell?	Yr Amgylchedd (33%) Gwaith ac Incwm (18%) Diogelwch (17%) Adfywio (16%) Gweithgareddau Cymdeithasol (14%)	Strydoedd glân a thaclus (18%) Bod Gweithgareddau Cymdeithasol ar gael (9%) Bod Gwaith ac Incwm ar gael (8%) Presenoldeb yr Heddlu (8%) Gwastraff ac Ailgylchu (8%)

Pen-y-bont ar Ogwr

Cynhaliwyd ymgynghoriad i adolygu asesiad llesiant Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Pen-y-bont ar Ogwr dros gyfnod o bedair wythnos rhwng mis Chwefror a mis Mawrth 2017. Cafwyd 506 ymateb i'r arolwg oedd yn gyfuniad o atebion i'r arolwg, pobl oedd yn bresennol mewn digwyddiadau lleol, y cyfryngau cymdeithasol ac ymatebion ar ffurf negeseuon e-bost.

I gyd gyda'i gilydd, roedd wyth cwestiwn, yn ymwneud â'r pedair thema llesiant. Ar sail atebion yr ymatebwyr, gofynnwyd cwestiynau ychwanegol er mwyn rhoi cyfle i'r ymatebydd ymhelaethu ar ei ddewis. Roedd pob cwestiwn yn yr arolwg yn ddewisol.

Roedd y mwyafrif o ymatebwyr yn cefnogi bob un o'r pedwar canfyddiad llesiant, sef Llesiant Amgylcheddol (91%), llesiant cymdeithasol (78%), llesiant diwylliannol (77%) a llesiant economaidd (71%).

Yng nghyswllt yr ymatebwyr nad oedd wedi dewis cytuno â'r canfyddiadau llesiant economaidd, 'cyfleoedd da ar gyfer dechrau busnes' (21%) a 'cyfraddau gwaith uchel' (21%) oedd y rhai oedd yn cael eu herio fwyaf neu yr oedd yr ymatebwyr yn anghytuno gryfaf â nhw. Y newid a gafodd y gefnogaeth fwyaf oedd y cynnig i ganolbwyntio ar gefnogi pobl ifanc (16%).

O blith yr un ym mhob deg (10%) nad oedd yn cytuno â'r canfyddiadau llesiant amgylcheddol, nododd un ym mhob pump (19%) nad Maesteg oedd yr unig dref y dylid ei chrybwyll yng nghyswllt amddiffyn rhag llifogydd. Y newid oedd yn cael y gefnogaeth fwyaf oedd y cynnig i gyflwyno camau penodol i leihau 'sbwriel/tipio anghyfreithlon' (24%).

Yng nghyd-destun llesiant cymdeithasol, nododd y rheini oedd yn anghytuno â'r canfyddiadau mai'r datganiadau ynghylch bod ysmegu/alcohol a chyffuriau yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol (52%) a bod cyfraddau troseddu yn isel (28%) yr oeddynt yn anghytuno fwyaf â nhw. Gwella presenoldeb yr heddlu (17%) oedd yr unig awgrym ar gyfer diweddarau'r datganiadau i gael cefnogaeth mwy nag un ym mhob deg. Roedd bron i un ym mhob pump (18%) yn anghytuno â'r heriau i lesiant cymdeithasol oedd yn codi yn sgil bwrghleriaeth, dwyn cerbydau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol (26%), ymdeimlad cryf o gymuned (22%) a bod gordewdra ymysg plant yn gostwng (18%).

O ran llesiant diwylliannol, o blith yr ymatebwyr nad oedd wedi dewis cytuno â'r canfyddiadau, y rhai ynghlŷn â'r iaith Gymraeg (30%) a'r diwylliant Cymreig (23%) oedd y rhai roeddynt yn anghytuno fwyaf â nhw. Roedd un ym mhob tri oedd yn anghytuno â'r heriau i lesiant diwylliannol am weld yr iaith Gymraeg yn cael ei dileu'n gyfan gwbl.

Caerffili

Defnyddiwyd sawl dull o ymgysylltu yng Nghaerffili (digwyddiadau ymgysylltu uniongyrchol, digwyddiadau ymgysylltu anuniongyrchol, y cyfryngau cymdeithasol a holiaduron).

Er mwyn cael rhywfaint o gysondeb yn yr ymatebion, gofynnwyd i unigolion ystyried pedwar prif gwestiwn, sef:

- Beth yw'r agweddau cadarnhaol ar y lle rydych chi'n byw?
- Beth yw'r agweddau negyddol ar y lle rydych chi'n byw?
- Sut fath o fwrdeistref sirol yr hoffech chi ei gweld ymhen 25 mlynedd?
- Yn eich barn chi, pa faterion y dylai'r gwasanaethau cyhoeddus roi blaenoriaeth iddynt?

Dyma rai o'r themâu cyffredin a gododd yn y digwyddiadau:

- yr angen am waith yn lleol sy'n talu'n dda ac sy'n galluogi pobl ifanc i gael hyfforddiant a gweithio yn yr ardal leol.
- o ran anghenion busnes, y farn oedd bod angen mwy o gefnogaeth i fusnesau lleol a rhagor o leoedd i brentisiaid.
- ystyriwyd bod cefnogi canolfannau manwerthu lleol yn bwysig gan fod trigolion yn gwerthfawrogi cael siopau lleol wrth law ar gyfer nwyddau a gwasanaethau.
- Ystyriwyd bod addysg ac ysgolion yn y cymunedau yn dda, er bod pa mor addas oedd y cwricwlwm o ran paratoi pobl ifanc ar gyfer bywyd yn rhywbeth a gafodd ei grybwyll.
- roedd cymunedau hefyd yn poeni am fynediad at gludiant cyhoeddus, gyda rhai ardaloedd yn y fwrdeistref sirol yn dweud bod y gwasanaeth hwnnw'n dda, ac eraill yn nodi diffyg o ran cludiant integredig ac nad oedd modd manteisio ar gyfleoedd gwaith a hamdden y tu allan i oriau teithio brig.
- roedd teithio llesol a phrinder rhwydweithiau seiclo mewn rhai ardaloedd yn y fwrdeistref hefyd yn ystyriaeth bwysig, yn enwedig o safbwynt pobl iau heb gar.
- roedd tagfeydd traffig hefyd yn cael ei ystyried yn broblem mewn rhai ardaloedd yn y fwrdeistref sirol.

- ystyriwyd bod parcio ceir mewn canolfannau trafndiaeth yn bwysig er mwyn ei gwneud yn haws i bobl ddewis cludiant cyhoeddus.
- roedd pwysigrwydd natur gymdogol ac ysbryd cymunedol yn thema oedd yn codi dro ar ôl tro, gyda rhai ymatebwyr yn gwerthfawrogi natur agos cymunedau lleol, ac eraill yn teimlo bod hyn yn dirywio ymysg y genhedlaeth iau.
- crybwyllwyd canolfannau cymunedol, canolfannau hamdden a llyfrgelloedd fel asedau cymunedol.
- ym mhob achos, roedd teimlad cryf iawn ymysg ymatebwyr bod amgylchedd naturiol yr ardal yn hardd. Roeddynt yn gwerthfawrogi eu mannau gwyrdd a'r pleser o fyw mewn ardal lled-wledig. Cyfeiriwyd yn aml at barciau, mannau chwarae ac atyniadau naturiol megis parciau gwledig.
- roeddynt o'r farn bod yr amgylchedd adeiledig hanesyddol a'r canolfannau celfyddydol lleol yn asedau oedd angen eu gwarchod.
- roedd pryderon amgylcheddol yn troi o amgylch sbwriel, tipio anghyfreithlon a baw cŵn.
- ystyriwyd bod y sefyllfa dai yn dda ond roedd tenantiaid problemus mewn rhai ardaloedd tai cymdeithasol.
- Nodwyd digon o adnoddau a chludiant effeithlon ar gyfer tai newydd mewn rhai ardaloedd yn y fwrdeistref.
- teimlwyd fod mewnfudo o Gaerdydd yn codi prisiau tai ac y gallai hyn wasgu pobl leol oedd yn prynu tŷ am y tro cyntaf o'r farchnad.
- ystyriwyd bod cynaliadwyedd amgylcheddol adeiladau a datblygiadau newydd yn bwysig.
- cyfeiriwyd at gynllunio ar gyfer defnyddio ynni adnewyddadwy.
- roedd y ffaith bod Caerdydd a'i chyfleoedd ar gyfer gwaith, hamdden a manwerthu mor agos yn cael ei ystyried yn beth cadarnhaol, er bod mynediad at gludiant cyhoeddus yn llesteirio'r gallu i fanteisio ar y cyfleusterau hyn mewn rhai ardaloedd.
- roedd y ddemograffeg o bobl yn heneiddio yn destun pryder o ran hygyrchedd gwasanaethau a mynediad cyfartal yn enwedig. Roedd pobl yn poeni a fyddai gwasanaethau cyhoeddus yn gallu ymdopi â demograffeg o bobl yn heneiddio.
- nodwyd ei bod yn bwysig bod pobl yn gallu parhau i fyw mewn cymunedau lleol, a bod angen mwy o bwyslais ar wella'r berthynas rhwng y cenedlaethau a chefnogaeth.
- roedd diogelwch cymunedol a chanfyddiad y cyhoedd yn amrywio ar draws y fwrdeistref, ac roedd barn rhai trigolion am yr heddlu a gwasanaethau cysylltiedig yn gadarnhaol.
- nododd eraill bod prinder gweithgareddau a chyfleoedd ar gyfer pobl ifanc ac roeddynt o'r farn bod hyn yn gallu arwain at ymddygiad gwrthgymdeithasol. Nid oedd unrhyw ardal wedi nodi pryderon sylweddol o ran troseddu.
- roedd yn ddiddorol gweld mai anaml iawn yr oedd pobl yn ystyried bod eu hiechyd eu hunain, neu iechyd eu cymunedau, yn broblem er bod y data sydd ar gael yn awgrymu fel arall.
- byrdwn cyffredin oedd methu â chael mynediad at wasanaethau iechyd ac apwyntiadau gyda meddygon teulu yn enwedig, a'r teimlad bod diffyg gwasanaethau ysbyty yn yr ardal. Yn arbennig, roedd gwasanaethau iechyd meddwl yn thema.
- Ystyriwyd bod cefnogi'r iaith Gymraeg yn y farchnad waith a'r sector manwerthu yn bwysig.

Sir Gaerfyrddin

Penderfynodd Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion, Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro gydweithio ar eu hasesiadau llesiant a'r ymgysylltu oedd yn rhan ohonynt. Er bod yr ardaloedd hyn y tu allan i ffiniau Tasglu'r Cymoedd gan mwyaf, penderfynwyd cynnwys eu canfyddiadau beth bynnag.

Roedd prif elfennau'r dull a ddefnyddiodd y rhanbarth yn cynnwys arolwg i drigolion a phecyn wedi'i gytuno ar gyfer gwaith ymgysylltu uniongyrchol drwy grwpiau ffocws neu mewn lleoliadau llai ffurfiol ledled y rhanbarth.

Y dull a fabwysiadwyd fel rhan o'r arolwg yn Sir Gaerfyrddin oedd llunio ymgyrch a fyddai'n targedu ymatebwyr posib drwy ddewis sampl o dai ar hap, anfon taflenni drwy'r post at baneli dinasyddion, defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol a phartneriaid (h.y. Ysgolion) i hyrwyddo'r arolwg a chreu cardiau post oedd yn cynnwys codau QR yr arolwg ar gyfer lleoliadau sy'n denu nifer fawr o bobl (h.y. canolfannau Meddygon Teulu, canolfannau gwasanaeth a llyfrgelloedd). Ymatebodd 2582 o drigolion Sir Gaerfyrddin i'r arolwg llesiant rhanbarthol.

Defnyddiwyd y pecyn mewn dros ugain o ddigwyddiadau ymgysylltu gyda grwpiau oedd yn cynnwys Fforymau Gofalwyr, sesiynau Iechyd galw heibio, fforymau pobl ifanc ac ati.

Roedd prif ganfyddiadau'r gweithgareddau ymgysylltu yn cynnwys y canlynol:

- Dau o'r pynciau yr oedd pobl yn credu a fyddai'n gwneud iddynt deimlo'n hapusach oedd mynediad gwell at wasanaethau a chludiant cyhoeddus gwell.
- Roedd ymatebwyr iau yn fwy tebygol o ddweud mai rhwydwaith ffonau symudol mwy dibynadwy a mynediad gwell at y rhyngwyd a fyddai'n gwneud iddynt deimlo'n hapusach. Dywedodd 65% o bobl rhwng 16 a 64 oed y byddai mynediad gwell at y rhyngwyd yn gwneud iddynt deimlo'n hapusach; felly hefyd 61% o'r rhai dan 16 oed. O gymharu, 51% o ymatebwyr mewn oed pensiwn oedd wedi dweud hyn.
- Nododd ymatebwyr mai mynediad gwell at doiledau cyhoeddus; llwybrau seiclo ac amgylchedd manwerthu iachach (yn cynnwys cyfuniad o siopau cadwyn cenedlaethol, siopau annibynnol a llai o siopau elusen); mwy o gyfleoedd hamdden a diwylliannol (ynghyd â hysbysebu gwell yng nghyswllt digwyddiadau lleol) a mynediad gwell at feddygon teulu, ysbytai a gwasanaethau iechyd meddwl a fyddai'n gwneud iddynt deimlo'n hapusach.
- Tirwedd/golygfeydd Sir Gaerfyrddin sydd fwyaf gwerthfawr i'r rheini sy'n byw yno; dywedodd dau ym mhob pump (42%) o'r ymatebwyr sy'n byw yn y sir eu bod yn gwerthfawrogi'r nodwedd gynhenid hon. Roedd heddwch a thawelwch yn ail agos, gyda 38% o'r ymatebwyr yn nodi hyn; lleoedd i gerdded/seiclo (34%) ac aer glân (33%) oedd yn y trydydd a'r pedwerydd safle o ran nodweddion mwyaf gwerthfawr.
- Yr hyn sy'n poeni ymatebwyr yn Sir Gaerfyrddin fwyaf yw problemau amgylcheddol lleol, megis sbwriel, tipio anghyfreithlon ac ailgylchu.
- Roedd 21% o'r ymatebwyr yn 'cytuno' (4% yn cytuno'n gryf ac 17% yn cytuno) bod cyfleoedd addas am waith iddynt yn eu hardal leol. Roedd 27% yn 'anghytuno' (9% yn anghytuno'n gryf a 18% yn anghytuno). Nid oedd 11% yn cytuno nac yn anghytuno, dywedodd 34% nad oedd y cwestiwn yn berthnasol a dywedodd 5% nad oeddynt yn gwybod.
- Yng nghyswllt y cwestiynau ynglŷn â gwaith, roedd teimlo eich bod yn cael eich gwerthfawrogi yn elfen bwysig, wedyn sicrwydd gwaith ac yna ymdeimlad o fod wedi cyflawni rhywbeth.

- Roedd dau beth yn amlwg yn cael blaenoriaeth fel pethau oedd yn greiddiol i hapusrwydd yr ymatebwyr, sef bodlonrwydd a boddhad mewn bywyd. Dywedodd chwarter yr ymatebwyr i'r arolwg bod iechyd da yn bwysig iddynt yn awr (79%) ac yn y dyfodol (61%). Yn ail, nododd bron i saith ym mhob deg (68%) bod cael digon o arian i dalu am yr hanfodion (biliau a nwyddau/gwasanaethau ayyb) yn bwysig nawr, a dywedodd dros hanner (52%) y byddai hyn yn bwysig yn y dyfodol.

Cwm Taf (Rhondda Cynon Taf a Merthyr)

Mae'r gweithgareddau ymgysylltu a gynhaliwyd â chymunedau yn Rhondda Cynon Taf ac ym Merthyr Tudful (Cwm Taf) wedi cyfrannu at Asesiad Poblogaeth Cwm Taf ac at Asesiad Llesiant Cwm Taf.

Creodd Cwm Taf y prosiect 'Deall Ein Cymunedau' a gynhaliwyd mewn dwy ran dros yr haf a'r hydref yn 2016. Bu staff o sefydliadau partner yn siarad gydag unigolion, grwpiau a chymunedau am yr hyn oedd yn bwysig iddyn nhw, beth yn eu barn nhw oedd yn bwysig i'w hiechyd a'u llesiant a beth oedd eu syniadau nhw am sut i wella pethau.

Roeddynt wedi defnyddio sawl dull o ymgysylltu, gan gynnwys defnyddio gwybodaeth oedd eisoes ar gael gan amryw o wahanol randdeiliaid, dulliau traddodiadol (holiadur/arolwg), mecanweithiau ymgysylltu â rhanddeiliaid oedd eisoes ar gael, digwyddiadau cymunedol, gweithgareddau pwrpasol a gweithgareddau wedi'u targedu, straeon gan ddefnyddwyr y gwasanaethau ac astudiaethau achos, yn ogystal â defnyddio Panel Dinasyddion.

Ni ddarparwyd unrhyw fanylion gwirioneddol am brif ganfyddiadau'r prosiect ymgysylltu. Ond mae'r Asesiad Llesiant yn cydnabod yr angen am fwy o ymgysylltu wrth i'r Cynllun Llesiant ddatblygu.

Castell-nedd Port Talbot

Defnyddiodd Castell-nedd Port Talbot sawl dull o ymgysylltu, gan gynnwys y canlynol:

- Arolwg ar-lein yr oedd 229 o bobl a oedd yn byw yn ardal Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot wedi ymateb iddo;
- Chwe gweithdy gyda 25 o bobl yn bresennol;
- Ymgynghori â rhanddeiliaid
- Adolygiad eilaidd o'r deunyddiau a'r dystiolaeth;
- Pedwar grŵp ffocws gyda grwpiau â diddordeb penodol, dwy ysgol uwchradd, un ysgol gynradd ac un ysgol anghenion dysgu ychwanegol.

Dosbarthwyd y canfyddiadau o dan y themâu canlynol - Llesiant Diwylliannol, Economaidd, Amgylcheddol a Llesiant Cymdeithasol.

Llesiant Diwylliannol – Yn cynnwys y celfyddydau, theatr a sinema, hanes Cymru a'r Gymraeg, a chwaraeon. Yng nghyswllt trigolion hŷn yn arbennig, roedd ymdeimlad o le a mynediad at hanes a diwylliant Cymru yn eithriadol o bwysig o ran llesiant diwylliannol, ac roedd cefnogaeth eang i'r iaith Gymraeg ar draws pob oedran.

Llesiant Economaidd – Mae biliau cyfleustodau yn broblem, gyda phobl yn wynebu dewisiadau caled o ran "gwres neu fwyd". Roedd pobl nad oedd yn byw ger coridor yr M4 yn fwy tebygol o gael eu hunain ar y cyrion yn economaidd oherwydd mynediad gwael at waith o ganlyniad i gyfyngiadau cludiant cyhoeddus. Roedd dod o hyd i waith yn cael ei ystyried yn allweddol o ran meddu ar ddigon o arian.

Llesiant Amgylcheddol – Mae ansawdd y dirwedd yn allweddol, gyda mynediad at yr arfordir, coedwigoedd, afonydd, bryniau neu dir parc yn rhoi hwb sylweddol i lesiant. Nid oedd llawer o ganol trefi a'r amgylchedd adeiledig yn arbennig yn gallu cystadlu â'r safonau

hyn ac roedd llawer o randdeiliaid yn teimlo nad oeddynt yn gallu ymfalchïo yn eu trefi lleol fel y maent oherwydd cau siopau, safonau cynnal a chadw gwael a gormod o draffig. O safbwynt materion amgylcheddol ehangach, roedd parodrwydd i hyrwyddo mwy ar ailgylchu. Mae ysbwriel a thipio anghyfreithlon yn broblem, ac mae awydd i weld pobl sy'n cyflawni troseddau o'r fath yn cael eu cosbi'n fwy llym. Mae cefnogaeth hefyd i ynni adnewyddadwy gyda rhai eithriadau lle mae ffermydd gwynt yn cael eu hadeiladu ar hyn o bryd.

Llesiant Cymdeithasol – Teulu a ffrindiau sy'n sail i lesiant cymdeithasol y mwyafrif, ond yng nghyswllt y rheini sy'n byw ar eu pennau eu hunain, a phobl hŷn yn arbennig, mae rhwydweithiau cymdeithasol a chlybiau yn bwysig iawn. Nodwyd problemau gyda chlydiant cyhoeddus yn aml yng nghyswllt meithrin llesiant cymdeithasol, gan fod clydiant gwael wrth wraidd rhwystrau i wasanaethau ac i leoedd. Mae mynediad at wasanaethau yn thema gyffredin, yn enwedig yng nghyswllt hamdden a chwaraeon er mwyn cadw'n iach ac yn egnïol. Mae llawer o drigolion yn poeni y bydd toriadau oherwydd cyni yn golygu y bydd gwasanaethau yn cael eu tynnu'n ôl. Roedd cael mynediad at wasanaethau iechyd yn broblem i lawer o drigolion, a nodwyd bod rhestrau aros hir i weld arbenigwyr ac anawsterau wrth geisio gweld meddyg teulu.

Abertawe

Roedd dwy ran i'r ymgynghoriad yn Abertawe. Yn gyntaf, cynhaliwyd arolwg ledled Abertawe a chafwyd 159 o ymatebion gan unigolion a 10 gan sefydliadau. Yn ogystal, cynhaliwyd asesiad annibynnol o lesiant pobl yn Ninas a Sir Abertawe. Comisiynwyd Miller Research gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot i wneud y gwaith ar ran CBS Pen-y-bont ar Ogwr, CBS Castell-nedd Port Talbot, Dinas a Sir Abertawe a Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg. Casglwyd data drwy gyfres o weithdai / grwpiau ffocws, cyfweiliadau un i un gyda rhanddeiliaid ac arolwg ar raddfa eang. Cwblhawyd 239 arolwg gan drigolion Abertawe.

Dosbarthwyd y canfyddiadau o dan y themâu canlynol - Llesiant Diwylliannol, Economaidd, Amgylcheddol a Llesiant Cymdeithasol.

Llesiant Diwylliannol – Roedd llesiant diwylliannol yn canolbwyntio ar fynediad at y celfyddydau, theatr, sinema a chwaraeon. Roedd gwirfoddoli yn cael ei ystyried yn ffordd ragorol o feithrin llesiant. Cymysg oedd y gefnogaeth i'r iaith Gymraeg, ond roedd cefnogaeth gref iawn mewn rhai cymunedau.

Llesiant Economaidd – At ei gilydd, roedd y bobl a gymerodd ran yn yr asesiad yn dweud mai cael digon o arian a gallu cynnal safon byw resymol oedd yn bwysig i lesiant economaidd unigolyn. Roedd sicrwydd ariannol yn creu pwysau allweddol yng nghyswllt y rheini oedd ar incwm isel, mewn gwaith portffolio neu a oedd yn ddi-waith. Roedd gweithwyr yn poeni bod eu safonau byw yn cael eu herydu oherwydd nid oedd rhai ohonynt wedi cael codiad cyflog ers sawl blwyddyn ac roedd eraill wedi symud yn raddol i swyddi sgiliau is neu i swyddi nad oedd yn talu cystal.

Llesiant Amgylcheddol – Mae ansawdd y dirwedd yn ddylanwad allweddol ar lesiant amgylcheddol, gyda mynediad at arfordir Gŵyr, afonydd, tir agored neu barciau yn rhoi hwb sylweddol i lesiant. Roeddynt yn ystyried bod cerdded a seiclo ar hyd yr arfordir, yn y

parciau neu ar y bryniau yn gwneud cyfraniad gwerthfawr i lesiant. Yn anffodus, nid yw llawer o ganol trefi a'r amgylchedd adeiledig mewn sawl ardal yn y Ddinas yn gallu cystadlu â'r safonau hyn ac roedd llawer o randdeiliaid yn teimlo nad oeddynt yn gallu ymfalchïo yn eu trefi lleol fel y maent oherwydd cau siopau, safonau cynnal a chadw gwael a gormod o draffig. Mae sbwriel a thipio anghyfreithlon yn broblem yn yr ardal, ac roedd awydd i weld pobl sy'n cyflawni troseddau o'r fath yn cael eu cosbi'n fwy llym. O safbwynt y rhai oedd wedi ymateb i'r arolwg, y prif ffactor o ran llesiant amgylcheddol oedd cael amgylchedd 'glân' (26 y cant o ymatebwyr) a gallu bod yn yr awyr agored. Nododd bron i chwarter (23 y cant) yr ymatebwyr bod strydoedd glanach neu fwy taclus (gydag un ym mhob deg yn cyfeirio at 'sbwriel') yn angenrheidiol ar gyfer gwella llesiant amgylcheddol.

Llesiant Cymdeithasol – Teulu a ffrindiau sydd wrth wraidd llesiant cymdeithasol i raddau helaeth iawn, gydag ychydig llai o bwyslais ar y gymuned mewn rhai ardaloedd na'i gilydd. Roedd cydbwysedd bywyd a gwaith yn her i lawer o bobl oedd mewn gwaith ac roedd hyn yn rhwystr i lesiant cymdeithasol mewn rhai achosion. I'r rheini oedd yn byw ar eu pennau eu hunain, a phobl hŷn yn arbennig, roedd rhwydweithiau cymdeithasol a chlybiau yn bwysig iawn. Nodwyd problemau gyda chlodiant cyhoeddus yn aml yng nghyswllt meithrin llesiant cymdeithasol, gan fod cludiant gwael wrth wraidd rhwystrau i gael mynediad at wasanaethau ac i leoedd. Cyfeiriodd nifer at gael mynediad gwell, neu fwy o fynediad, at gyfleusterau hamdden (fforddiadwy), cael mwy o amser (o'r gwaith) a mwy o arian er mwyn ei gwneud yn haws cael mynediad at weithgareddau hamdden.

Torfaen

Dosbarthwyd Holiadur Llesiant Torfaen ddiwedd yr haf/ddechrau'r hydref yn 2016 ac anfonwyd 1042 holiadur yn ôl gan unigolion a chafwyd 31 holiadur yn ôl gan fusnesau o fewn Torfaen. Roedd yr arolwg yn ceisio barn trigolion Torfaen ar bedwar cwestiwn i'n helpu i ddeall beth mae pobl yn ei gredu sy'n dda am Dorfaen a sut le y byddent yn hoffi iddo fod yn y dyfodol. Roedd yr arolwg hefyd yn ceisio barn busnesau yn Nhorfaen ar bedwar cwestiwn i'n helpu i ddeall beth, yn eu barn nhw, sy'n dda am Dorfaen a sut maent yn gweld busnesau yn datblygu yn y dyfodol.

Canfyddiadau unigolion:

Beth sy'n dda am eich cymuned?	Beth sydd ddim yn dda am eich cymuned?	Beth yw'r un peth y byddech chi'n ei newid am eich cymuned er mwyn ei gwneud yn lle gwell?	Pa ddyfodol rydych chi am i'ch cymuned ei gael?
Amwynderau cyhoeddus (360)	Ymddygiad Gwrthgymdeithasol (385)	Mannau cyhoeddus yn cael eu cynnal a'u cadw'n well (282)	Cymdogaeth Dda (390)
Natur Gymdogol (338)	Cynnal a chadw manau cyhoeddus (355)	Rheoli Gwastraff (116)	Diogelwch Cymunedol (316)
Mannau Gwyrdd (291)	Taflu sbwriel (305)	Gweithgareddau Cymdeithasol (98)	Mannau cyhoeddus yn cael eu cynnal a'u cadw'n well (261)
Cymdogaeth	Gweithgareddau	Amwynderau cyhoeddus	Gweithgareddau

Dda (116)	Cymdeithasol (33)	(75)	Cymdeithasol (23)
Tawelwch (20)	Goleuadau Stryd (11)	Cyfleusterau Hamdden (32)	Llewyrchus (13)
Cynnal a chadw manau cyhoeddus (18)	Rheoli Traffig (8)	Plismona (20)	
Cyfleusterau Hamdden (10)	Parcio (6)	Gwella cyfleusterau parcio (15)	
Gweithgareddau Cymdeithasol (10)		Rheoli Traffig (13)	
		Mannau Gwyrdd (10)	
		Llai o Ymddygiad Gwrthgymdeithasol (6)	
		Taflu sbwriel (6)	
		Goleuadau Stryd (5)	
		Cydweithio gwell rhwng y gymuned a'r gwasanaethau cyhoeddus (4)	
		Adfywio (4)	